




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PRENTISIAETHAU.
# DEWIS DOETH.
# PECYN CYMORTH I GYFLOGWYR





Prentisiaethau
Apprenticeships

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**

# CYNNWYS

PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH.

| | |
|---|---|
| Prentisiaethau yng Nghymru | **Tudalen 3** |
| Cynllun Polisi Sgiliau Prentisiaethau | **Tudalen 4** |
| Ardoll Prentisiaethau | **Tudalen 5** |
| Deall Prentisiaethau yng Nghymru | **Tudalen 6** |
| Lefelau Prentisiaethau | **Tudalen 7** |
| Meini Prawf Cymhwysedd | **Tudalen 8** |
| Fframweithiau Prentisiaethau yng Nghymru | **Tudalen 9** |
| Cysylltu â Darparwyr Prentisiaethau | **Tudalen 10** |
| Cymorth i Gyflogwyr yng Nghymru | **Tudalen 11** |
| Cwestiwn ac Ateb | **Tudalen 12 - 15** |
| Sut mae recriwtio prentis | **Tudalen 16** |

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

# PRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU



Bydd y ffordd y byddwn yn gweithredu wrth gyflenwi prentisiaethau'n cael ei sbarduno gan anghenion economi a chymunedau Cymru.

Gall pob cyflogwr yng Nghymru gael gafael ar hyfforddiant o safon uchel a chyfrannu ato, a fydd yn sbarduno economi sy'n seiliedig ar wybodaeth, gan roi cyfle i gyflogwyr a'u gweithwyr gyflawni eu potensial yn llawn. Mae prentisiaethau'n hanfodol i sicrhau llwyddiant economaidd. Drwy gynnig prentisiaethau, mae busnesau nid yn unig yn helpu eu busnes eu hunain i dyfu, maent hefyd yn gwneud cyfraniad hollbwysig at roi hwb i'n heconomi a sicrhau y bydd ein gweithlu yn y dyfodol yn meddu ar y sgiliau cywir i sicrhau bod Cymru yn aros yn gystadleuol.

Mae prentisiaethau'n cael eu cynllunio gan gadw anghenion y cyflogwr mewn golwg, a gallant helpu i weddnewid busnesau drwy ddarparu'r gweithwyr medrus sydd eu hangen ar gyflogwyr ar gyfer y dyfodol. Mae gan rai o gwmnïau mwyaf blaengar y byd raglenni prentisiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei system prentisiaethau i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau Cymru, gan ganolbwyntio ar ansawdd a gwerth am arian. Mae gennym eisoes hanes da o ran ansawdd ac adlewyrchir hyn yn ein cyfraddau cwblhau fframweithiau Prentisiaethau, sy'n gyson yn uwch nag 80 y cant.

Cafodd ein Cynllun Polisi Sgiliau Prentisiaethau ei lansio yn 2017 i roi sylw i ofynion busnesau yng Nghymru, sy'n newid yn gyson a'r economi ehangach, ac mewn ymateb i feysydd blaenoriaeth lle mae prinder sgiliau yn cael eu nodi. Mae'r polisi newydd yn dangos y cam pwysig tuag at sgiliau technegol a phroffesiynol lefel uwch, gan hyrwyddo effeithlonrwydd a chludadwyedd yn ein sectorau â blaenoriaeth.

Mae ein buddsoddiad mewn sgiliau'n fuddsoddiad yn nyfodol ein gwlad, yn ei busnesau a'i phobl. Rydym yn canolbwyntio ar gysoni a gwella lefel y farchnad sgiliau er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr gan ddefnyddio system sy'n ymateb i newidiadau mewn diwydiant, yn arbennig yn y sectorau sy'n sbarduno twf a ffyniant.

## Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Drwy ymgysylltu â'r partneriaethau hyn, mae gan gyflogwyr ddull i'w ymgorffori yn eu hanghenion presennol ac yn y dyfodol o ran cynnwys y fframwaith ar brentisiaethau. Mae rhagor o wybodaeth am y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru ar gael ar **dudalen 14**.

# CYNLLUN POLISI SGILIAU PRENTISIAETHAU

PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel i bobl o bob oed tan 2021.

## Dyma ein blaenoriaethau cyflawni tan 2021:

- **Cynyddu nifer y prentisiaethau 16-19 oed:** cynyddu nifer y rhai 16-19 oed sy'n ymgymryd â phrentisiaeth a chynyddu nifer y rhai sy'n gadael ysgol ac yn mynd ymlaen i ymgymryd â phrentisiaethau o ansawdd uchel.
- **Ymateb i brinder sgiliau:** datblygu prentisiaethau, yn enwedig mewn sectorau sy'n tyfu a chategorïau swyddi sy'n datblygu, yn unol â blaenoriaethau a bennwyd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- **Datblygu sgiliau lefel uwch:** canolbwyntio ar brentisiaethau ar lefel 4 ac uwch, lle mae'r manteision yn tueddu i fod yn fwy ac ar y lefel a gyflawnir gan y gwledydd mwyaf llwyddiannus yn Ewrop. Parhau i fonitro effeithiolrwydd a pherthnasedd Prentisiaethau Sylfaen (Lefel 2).
- **Datblygu llwybrau sgiliau:** integreiddio prentisiaethau â'r system addysg ehangach.

## Bydd ein blaenoriaethau yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **Rhaglen bob oed:** cynyddu nifer y bobl sy'n gallu manteisio ar brentisiaethau o ansawdd da.
- **Cefnogi mesurau perfformiad:** canolbwyntio ar sicrhau gwaith ystyrlon a chynaliadwy.
- **Helpu dysgwyr:** sicrhau bod y ddarpariaeth a'r cyfleoedd yn hawdd cael atynt, yn hawdd gwneud cais amdanynt ac yn hawdd recriwtio ar eu cyfer.
- **Darparu prentisiaethau yn Gymraeg ac yn ddwyieithog:** sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i gynnal a datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg.
- **Sefydlu system newydd ar gyfer adolygu a datblygu prentisiaethau:** sicrhau bod prentisiaethau'n cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion cyflogwyr a'u bod yn ymateb i newidiadau mewn diwydiant.

# YR ARDOLL PRENTISIAETHAU

## Beth mae'n ei olygu i'ch busnes chi?

Mae'r Ardoll Prentisiaethau yn dreth gyflogaeth ledled y DU sydd wedi cael ei chyflwyno gan Lywodraeth y DU ac fe ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2017.

Mae'n cael ei chasglu ar draws y DU gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi drwy'r system Talu Wrth Ennill (PAYE). Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu ei Rhaglen Prentisiaethau drwy rwydwaith darparwyr prentisiaethau Cymru. Nid oes cynlluniau i weithredu system dalebau fel yn Lloegr.

Rydym wedi sefydlu tîm o gynghorwyr sy'n gallu cefnogi cyflogwyr i bennu effaith yr Ardoll a'r opsiynau hyfforddi sydd ar gael. Bydd y tîm hwn yn asesu sut mae prentisiaethau cyfredol yn diwallu anghenion cyflogwyr a sut y gall cyflogwr gael y cyllid uchaf posibl gan Lywodraeth Cymru.

### Pwy fydd yn talu'r Ardoll?

Mae'r Ardoll yn berthnasol i bob cyflogwr yn y DU, p'un ai a ydynt yn y sector preifat, yn y sector cyhoeddus neu'n elusen, a chanddynt 'fil cyflogau' o £3 miliwn neu fwy bob blwyddyn.

### Sut mae'r Ardoll yn cael ei chyfrifo?

Mae'r Ardoll Prentisiaethau yn 0.5% o'ch bil cyflogau blynyddol, a chaiff ei thalu'n fisol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/guidance/pay-apprenticeship-levy**

### Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych gwestiynau penodol am yr Ardoll, gallwch gael cyngor gan Uned Prentisiaethau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at **DFES-ApprenticeshipUnit@gov.wales**

# DEALL PRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU



Rydym yn annog pob cyflogwr i asesu anghenion cynllunio'r gweithlu ac ystyried sut gallai cyllid prentisiaeth helpu i gynorthwyo â hyfforddi/uwchsgilio a recriwtio yn y dyfodol. I'ch helpu chi, rydyn ni wedi darparu rhywfaint o wybodaeth bwysig i chi, sydd wedi'i chrynhoi isod:

## Lefelau Prentisiaethau

Mae gwahanol lefelau o brentisiaethau sy'n addas ar gyfer anghenion eich busnes a'ch gweithlu.

Ewch i **dudalen 7** i gael trosolwg o'r lefelau sydd ar gael.

## Ein Rhwydwaith Darparwyr

Mae gennym rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau yng Nghymru sydd ar gael i ddiwallu'ch anghenion.

Ewch i **dudalen 10** i gael manylion cyswllt.

## Cynnwys y Fframwaith

Yng Nghymru, bydd prentis yn dilyn Fframwaith Prentisiaeth cymeradwy ar gyfer Cymru.

Ewch i **dudalen 9** i gael rhagor o wybodaeth.

## Gwerthoedd Cyllid Fframwaith.

I'ch helpu chi i ddeall y gwerth rydych chi'n ei gael o'n system prentisiaethau, rydym yn cyhoeddi rhestr o gyfraddau fframweithiau prentisiaethau.

Ewch i **dudalen 13** i gael rhagor o wybodaeth.

## Ein Sectorau Blaenoriaeth

Mae rhestr gyflawn o'r fframweithiau sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd a'r darparwyr hyfforddiant sy'n darparu'r rheini ar gael ar ein gwefan. Rydym yn lleihau prentisiaethau Lefel 2 mewn sectorau heb fod yn flaenoriaeth oni bai fod tystiolaeth o gynnydd i lefel 3.

Ewch i **dudalen 11** i gael manylion ein gwefan.

## Gwybodaeth a Chymorth i Gyflogwyr

Mae rhagor o wybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth ar gael. Dewiswch yr opsiwn mwyaf addas ar gyfer eich anghenion.

Ewch i **dudalen 11** i gael rhagor o wybodaeth am y pwyntiau cyswllt sydd ar gael i chi.

# LEFELAU PRENTISIAETHAU

## Prentisiaethau Sylfaen

Mae prentisiaid sylfaen yn astudio tuag at gymwysterau cyfwerth â 5 TGAU neu NVQ Lefel 2 ac yn aml yn mynd ymlaen i ymgymryd â Phrentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | **Lefel 2** | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Lefel 6 |

## Prentisiaethau

Mae prentisiaid yn datblygu sgiliau gwerthfawr wrth weithio, gan astudio tuag at gymhwyster cenedlaethol cydnabyddedig gyfwerth â 5 TGAU (A*-C), 2 Lefel A neu NVQ Lefel 3.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | Lefel 2 | **Lefel 3** | Lefel 4 | Lefel 5 | Lefel 6 |

## Prentisiaethau Uwch

Mae prentisiaethau uwch yn gweithio tuag at gymhwyster cyfwerth â HND/HNC neu Gradd Sylfaenol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | **Lefel 4** | **Lefel 5** | Lefel 6 |

## Prentisiaethau Gradd

Drwy gyfuno dysgu lefel uwch a chyflogaeth, gall cyflogwyr ddatblygu eu gweithlu a gall eu prentisiaid ennill gradd, gan ddatblygu eu gyrfa ac ennill cyflog ar yr un pryd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | **Lefel 6** |

## Prentisiaethau Cymraeg a Dwyieithog

Mae modd astudio prentisiaethau yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu hyd yn oed yn ddwyieithog, yn ddibynnol ar anghenion y cyflogwr. Mae manteision busnes i gyflogwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg a gall darparu gwasanaeth Cymraeg i siaradwyr Cymraeg wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid.

# MEINI PRAWF CYMHWYSEDD



Mae busnesau o bob maint yng Nghymru yn gymwys. Bydd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn cael ei gynnal gennych chi, y cyflogwr, ac fe fyddwch yn gweithio gyda darparwr hyfforddiant cymeradwy a fydd yn rheoli'r broses o hyfforddi ac asesu'r prentis. Gall unrhyw un yng Nghymru sydd dros 16 oed wneud cais am brentisiaeth a chael budd o'r cyfleoedd a gynigir.

## Pa aelodau staff sy'n gymwys i gael arian ar gyfer prentisiaeth?

• **Dysgwyr 16-19 oed:** byddwn yn ceisio cefnogi prentisiaethau (ar bob lefel), ni waeth am faint y mae'r dysgwr wedi bod yn ei swydd.

• **Dysgwyr 20 oed a hŷn:** byddwn yn ceisio cefnogi prentisiaethau (ar bob lefel) ond mae cyfyngiadau ar Lefel 2 o fewn y sectorau nad ydynt yn rhai â blaenoriaeth sef Gweinyddiaeth Fusnes, Manwerthu a Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Harddwch a Gwallt.

## Mae annog ceisiadau gan bobl anabl yn dda i'ch busnes. Gall eich helpu i wneud y canlynol:

- cynyddu nifer yr ymgeiswyr o ansawdd uchel sydd ar gael
- creu gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth helaeth o gwsmeriaid y mae'n eu gwasanaethu a'r gymuned y mae ynddi
- ychwanegu sgiliau ychwanegol at y busnes, fel gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL), a allai arbed llawer o arian

Costau bach iawn sydd fel arfer yn gysylltiedig â gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer gweithwyr anabl.

Mae'r manteision o gadw gweithiwr profiadol a medrus y mae nam wedi effeithio arno fel arfer yn fwy na'r rheini a geir o recriwtio a hyfforddi staff newydd.  Mae hefyd o fudd i'r unigolyn.

Gall y cynllun Mynediad i Waith ddarparu cymorth i dalu am offer arbennig, addasiadau neu wasanaethau gweithiwr cymorth i helpu pobl anabl gyda chostau cymorth yn y gweithle. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/access-to-work**

# FFRAMWEITHIAU PRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU



Mae'r holl fframweithiau yng Nghymru yn cynnwys:

**Cymhwyster cymhwysedd**
Daw hwn o dan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

**Cymhwyster technegol**
Perthnasol i'r sgil, crefft neu swydd benodol i'r brentisiaeth.

**Cymwysterau neu ofynion eraill**
Yn unol â'r hyn a nodir ar gyfer y swydd benodol.

**Mae cymwysterau Sgiliau Hanfodol* Cymru yn cynnwys:**

- sgiliau gorfodol o ran cymhwyso rhif a chyfathrebu
- sgiliau llythrennedd digidol os ydynt yn berthnasol yn y fframwaith

Adnodd asesu ar-lein yw Prawf Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) sy'n gwerthuso lefelau cymhwysedd mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol (os yw'n berthnasol). Ei fwriad yw helpu unigolion i gyflawni eu prentisiaeth yn ei chyfanrwydd.

***oni bai fod eithriadau procsi perthnasol i ofynion y fframwaith.**

Mae ein fframweithiau a'u cynnwys wedi cael eu creu er mwyn sicrhau bod gan brentisiaid yr wybodaeth a'r cymwysterau perthnasol i'w galluogi nhw i ddatblygu yn eu gweithle ac yn y dyfodol.

Rhoddir manylion gofynion lefel mynediad o fewn pob fframwaith.

Caiff cyflogwyr eu hannog i ymchwilio i gynnwys y fframwaith. Gellir gwneud hyn trwy ymweld â Apprenticeship Certification Wales yn **www.acwcerts.co.uk/web/**

# CYSYLLTU Â DARPARWYR PRENTISIAETHAU

PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH.

Caiff Rhaglen ar gyfer Prentisiaid Llywodraeth Cymru ei darparu gan rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant ledled Cymru.

### ALS Training
Helena Williams
**info@alstraining.org.uk**

### ACT Training
Tia Ahmed
**tiaahmed@acttraining.org.uk**

### Babcock Training Limited
Diane Block
**diane.block@babcockinternational.com**

### B-wbl
Berni Tyler
**b.tyler@pembrokeshire.ac.uk**

### The CADcentre UK Ltd.
Linda Thomas
**linda.thomas@cadcentreuk.com**

### Cwmni Hyfforddiant Cambrian
Katy Godsell
**katy@cambriantraining.com**

### Cardiff and Vale College / QSA Consortium
Alan Mackey
**a.mackey@thecardiffandvalecollege.onmicrosoft.com**

### CITB
Alison Dudfield
**alison.dudfield@citb.co.uk**

### Coleg Cambria
Vicky Barwis
**employers@cambria.ac.uk**

### Gower Gŵr Swansea
Rachel Searle
**rachel.searle@gcs.ac.uk**

### Grŵp Llandrillo Menai
Jane Howells
**wblconsortium@gllm.ac.uk**

### ISA Training
Rhiannon Fletcher
**RhiannonF@educ8training.co.uk**

### ITEC Training Solutions
Daryll Jones
**daryll.jones@itecskills.co.uk**

### Marr Corporation t/A T2 Group
Gregg Davey
**gregg.davey@t2group.co.uk**

### People Plus
Denise Lacey
**denise.lacey@peopleplus.co.uk**

### Academi Sgiliau Cymru @ Grŵp Colegau NPTC
Louise Akers
**louise.akers@nptcgroup.ac.uk**

### Torfaen Training
Ceri Moffatt
**ceri.moffatt@torfaen.gov.uk**

# CYMORTH I GYFLOGWYR YNG NGHYMRU

PRENTISIAETHAU.
DEWIS DOETH.

**Porth Sgiliau Busnes Cymru**

Bydd Porth Sgiliau Busnes Cymru yn rhoi gwybodaeth i chi am bob agwedd ar ein Rhaglen ar gyfer prentisiaid. Mae gennym ni dîm ymroddedig o Ymgynghorwyr Cysylltu â Chyflogwyr sydd ar gael i drafod eich gofynion o ran prentisiaethau yn fwy manwl.

Llenwch y **Ffurflen Mynegi Diddordeb** i gael rhagor o gymorth a chefnogaeth.

**www.businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau**

**03000 6 03000**

**/apprenticeshipscymru**

**@apprenticewales**

**Darparwyr hyfforddiant**

Os ydych chi'n gwybod beth yw'ch gofynion o ran prentisiaeth er mwyn diwallu eich anghenion busnes, gallwch gysylltu ag un o'n darparwyr hyfforddiant* yn uniongyrchol.

(ewch i **dudalen 10** i gael y manylion cyswllt)

*nid yw'r llwybr hwn yn berthnasol i Brentisiaethau Gradd

# PRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU



## Cwestiwn ac Ateb

### 1. Pam mae'r system prentisiaethau'n wahanol yng Nghymru?

Mae sgiliau, gan gynnwys prentisiaethau, yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei system prentisiaethau i ddiwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau Cymru. Mae Cymru yn canolbwyntio ar ansawdd i sicrhau gwerth am arian. Mae darparu  a chyllido prentisiaethau yn cael ei flaenoriaethu ar sail anghenion yr economi a chyflogwyr. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gysylltu â chyflogwyr ac i roi'r wybodaeth i ni am y sgiliau sydd eu hangen a'r bylchau mewn sgiliau. Rydym yn blaenoriaethu ein darpariaeth yn unol â'r anghenion y mae tystiolaeth ar gael ohonynt.

### 2. Sut mae prentisiaethau'n cael eu darparu yng Nghymru?

Mae prentisiaethau'n cael eu darparu a'u gweinyddu trwy rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau. Mae'r rhain i'w gweld ar **dudalen 10**.

Mae'r ddarpariaeth yr ydym yn ei chomisiynu pob blwyddyn wedi'i seilio ar wybodaeth gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a gwybodaeth a gawn yn uniongyrchol gan gyflogwyr.

### 3. Sut bydd arian yr Ardoll yn dod i Gymru?

Caiff cyfanswm y dyraniad mae Llywodraeth Cymru yn ei gael gan Lywodraeth y DU ei gyfrifo drwy ddefnyddio Fformiwla Barnett. Mae hyn yn wahanol i'r Adolygiad o Wariant y DU yn 2015, lle gwnaeth Llywodraeth y DU ddyrannu adnoddau i adrannau Whitehall i fynd i'r afael â rhaglenni a oedd yn cael eu hariannu gan yr Ardoll Prentisiaethau. Cafodd yr ychwanegiadau hyn eu gorbwyso gan doriadau i raglenni eraill, gan gynnwys rhaglenni ar gyfer prentisiaid a oedd yn bodoli eisoes. Mae Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU yn 2015 yn golygu y bydd cyllideb Lywodraeth Cymru yn parhau i ostwng mewn termau real dros y blynyddoedd nesaf.

Nid yw'r arian sy'n cael ei ddarparu i Gymru wedi cael ei glustnodi. Un o egwyddorion sylfaenol datganoli yw bod Gweinidogion Cymru yn dyrannu adnoddau yn eu cyllideb yn ôl blaenoriaethau Cymru, ac yn unol â chymeradwyaeth y Cynulliad. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gwybod faint mae cyflogwyr Cymru wedi'i dalu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

# PRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU

Cwestiwn ac Ateb

### 4. A fydd system talebau digidol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru yn yr un modd ag yn Lloegr?

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gyflwyno system talebau digidol. Nid ydym wedi gweld tystiolaeth sy'n dangos y byddai system talebau yn gwella ansawdd y system.

Mae llawer o anawsterau wedi bod yn y gorffennol hefyd gyda'r systemau talebau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn y DU. Mae llawer o gyflogwyr a chyrff cyflogwyr wedi beirniadu'r system sy'n cael ei chynnig yn Lloegr.

### 5. Sut bydd yr Ardoll yn effeithio ar gyflogwyr sydd â gweithlu ar ddwy ochr y ffin?

Ni waeth ymhle mae'r prentis yn byw, neu ymhle mae lleoliad y cyflogwr, arian a blaenoriaethau **Llywodraeth Cymru** fydd yn berthnasol pan mae prentis yn **gweithio yng Nghymru am 51%** neu ragor o'i amser.

Ni waeth ymhle mae'r prentis yn byw, trefniadau ariannu/talebau a blaenoriaethau Llywodraeth y DU fydd yn berthnasol pan mae prentis **yn gweithio yn Lloegr am 50%** neu ragor o'i amser.

- ffoniwch yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ar **08000 150 600**
- ewch i **www.gov.uk/government/publications/apprenticeship-levy**
- anfonwch e-bost at **nationalhelpdesk@apprenticeships.gov.uk**

### 6. Sut ydw i'n cyfrifo fy elw ar fuddsoddiad (fel rhywun sy'n talu'r Ardoll) neu'n deall gwerth yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i fy nghwmni?

Gallwch gael mynediad at restr o werth fframweithiau fesul prentisiaeth ar wefan Llywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn rhoi gwerth pendant i chi oherwydd fe all fframweithiau newid o ganlyniad i natur ein trefniant contractio, ond byddant yn rhoi amlinelliad o'r gwerth er mwyn eich galluogi chi i gyfrifo eich elw ar y buddsoddiad fel rhywun sy'n talu'r Ardoll, neu i roi gwerth cyffredinol ar gyfer yr hyfforddiant a ddarperir i chi.

# PRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU

Cwestiwn ac Ateb

PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH.

### 7. Sut alla i ymgysylltu â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol?

Mae darparu sgiliau rhanbarthol yn ffocws polisi pwysig i'r dyfodol ac mae'n rhan o'r agenda gynyddol sydd wedi'i gosod yn erbyn cyd-destun lle mae'r dirwedd sgiliau sy'n canolbwyntio ar y rhanbarthau yn cael ei sbarduno gan Lywodraeth y DU ac yn canolbwyntio ar y sgiliau rhanbarthol. Mae'r Ardaloedd Menter, y Dinas-ranbarthau a'r Bidiau Twf oll yn rhan o hyn.

Y nod yng Nghymru yw ysgogi swyddi a sgiliau drwy annog darparwyr sgiliau i gysylltu eu cynlluniau cyflawni a chyllido â chyfleoedd y mae buddsoddiadau strategol a thwf busnes wedi'u creu yn eu rhanbarthau. Mae'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn y Gogledd, y De-orllewin a Chanolbarth a De-ddwyrain Cymru wedi hen ennill eu plwyf ac mae ganddynt strwythurau cadarn ar waith a chysylltiadau cadarnhaol gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid pwysig yn y rhanbarthau y maent yn eu cynrychioli. Dyma fanylion y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol:

**Partneriaethau Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRSP)**

Cysylltwch â Huw Wilkinson:
**huw.wilkinson@newport.gov.uk**
neu **www.cardiffcapitalregion.wales/cy/ynghlych/partneriaeth-sgiliau/**

**Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol ar gyfer De Orllewin a Chanolbarth Cymru**

Cysylltwch â Jane Lewis:
**JElewis@carmarthenshire.gov.uk**
neu **www.rlp.org.uk/cym/home**

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Cysylltwch ag Sian Lloyd-Roberts:
**sianlloydroberts@gwynedd.llyw.cymru**
neu **www.northwaleseab.co.uk**




**Partneriaethau Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

**Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol (PDSR)**

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

### 8. Beth yw Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru (WAAB)?

Rydym yn adolygu'n barhaus prentisiaethau er mwyn diwallu anghenion technegol heriol, a byddwn yn parhau i weithio gyda chyflogwyr a grwpiau diwydiant i sicrhau bod ein cynnig yn ateb gofynion diwydiant wrth iddynt ddatblygu. Rydym wedi cydnabod bod angen i gyflogwyr gyfrannu mwy at y gwaith o ddylunio ein fframweithiau prentisiaethau ac rydym wedi creu dulliau er mwyn galluogi hynny (gweler yr wybodaeth am Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru).

Mae Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru newydd gael ei sefydlu ac mae ei gylch gwaith yn cynnwys sefydlu strwythur a arweinir gan gyflogwyr i ddylanwadu'n uniongyrchol ar y cynnwys sydd ar gael i gyflogwyr. Mae'r bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o gwmnïau lle mae'r cyflogwyr yn talu'r Ardoll a rhai lle nad ydynt yn talu'r Ardoll.

Nawr mae gan gyflogwyr ffrwd glir ar gyfer gofynion presennol y fframwaith ac yn y dyfodol, i herio'r cynnwys dysgu yn ein rhaglen neu i roi gwybodaeth/cyngor ynghylch dyluniad fframweithiau newydd ar gyfer prentisiaethau.

Dylai cyflogwyr gysylltu â'u Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn y lle cyntaf er mwyn cyflwyno ystyriaethau presennol ynghylch y fframwaith a rhai sy'n dod i'r amlwg.

# SUT MAE RECRIWTIO PRENTIS

1. **Bydd prentisiaethau yng Nghymru yn dilyn fframwaith prentisiaeth** sy'n addas ar gyfer eu hanghenion a'u lefel. Fel cyflogwr, fe ddylech chi weithio gyda'ch darparwr hyfforddiant i ystyried y fframwaith mwyaf addas. Gallwch chwilio drwy wefan Apprenticeship Certification Wales yn **www.acwcerts.co.uk/web/** fesul pwnc neu sector. Mae fframweithiau'n darparu gwybodaeth allweddol i chi, fel:

   • Swyddi sy'n berthnasol i gynnwys y fframwaith
   • Cymwysterau
   • Cynnwys Sgiliau Hanfodol, Gwybodaeth a Chymhwysedd

2. **Gallwn eich helpu chi i ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant** cymeradwy sy'n cynnig fframwaith prentisiaeth addas ar gyfer eich busnes. Mae'r darparwyr hyfforddiant ledled Cymru yn gweithio gyda busnesau i ddarparu rhaglennu dysgu seiliedig ar waith o safon uchel; byddant yn delio â'r gwaith o hyfforddi, cymhwyso ac asesu eich prentisiaid.

3. **Gallwch hysbysebu eich Prentisiaeth** wag drwy'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau ar **www.careerswales.com/cy/** Hon yw'r system recriwtio ar-lein swyddogol ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru ac fe all eich helpu chi i ddod o hyd i brentis sy'n addas ar gyfer eich busnes chi. Gall cyflogwyr adolygu ceisiadau, eu hidlo er mwyn llunio rhestr fer a gwahodd ymgeiswyr am gyfweliad.

4. **Negodi cyflog a fydd** yn adlewyrchu sgiliau a phrofiad yr unigolyn. Efallai y bydd gofyn i chi gyfrannu tuag at rywfaint o'r costau hyfforddi hefyd.

**I gael rhagor o gyngor, arweiniad a chymorth, ewch i www.businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau neu'n ffonio ni ar 03000 6 03000.**